MOBILE PHONE, PHOTOGRAPHY AND DEVICE USE POLICY

This policy applies to all electronic devices capable of taking photos, recording videos, sending/receiving calls or messages. This includes cameras, mobile phones, tablets, smartwatches, Fitbits, and any similar recording devices.

Staff Use of Devices

Staff Mobile Phone Storage Procedure

A designated mobile phone box is kept in the nursery office. At the start of each working day, all staff must switch off or silence their personal mobile phones and place them in the designated phone box, where they must remain securely stored throughout the working day. Staff may retrieve their phones during their allocated lunch break and must return them to the phone box before resuming their duties. Phones may be collected at the end of the working day when staff finish their shift. Exceptions may be agreed with management where there is a legitimate reason for a staff member to access or retain their phone during working hours. Any such arrangements must be agreed in advance with management.

This procedure is in place to minimise distractions, protect children's privacy and confidentiality, and ensure staff remain focused on the care, supervision and safety of the children. Staff may only use nursery-provided devices to take photos or videos of children. Nursery devices must not have social media or messaging apps, and any apps can only be installed by management. Nursery devices must remain on-site when not in use, except for nursery laptops may be taken home by senior management for work purposes only.

Visitors and Parents

Visitors are welcome but must keep mobile phones, smartwatches, Fitbits, and other devices in pockets or the office and must not use them while in the setting.
Parents are requested not to allow children to bring devices capable of taking photos or recording, including smartwatches and Fitbits.
Visitors and parents cannot take photos or videos on nursery premises without prior consent from management.

Consent for photos and videos

Photos and videos of children may only be taken with prior written consent from parents/guardians.

Parents are given the option via our nursery app to:

- Allow photos to be shared with them individually on the internal secure app.
- Allow photos to be shared with other parents on the internal secure app.
- Allow the nursery to take photos for use on social media, the website, or other promotional
- materials.
- Allow third parties to use photos.

Parents/carers may withdraw their consent at any time via the nursery app or in writing. Withdrawal of consent will apply to future use of images. The nursery will take reasonable steps to remove previously published images where practicable; however, this may not always be possible, for example where images have already been used in printed materials, marketing publications, or by authorised third parties.

News and media personnel
News or media personnel may take images of the nursery environment or children without their faces visible, so that children cannot be identified. They must not retain any images of children for whom we have not received prior written consent for third part use.

Nursery devices
Photos and videos captured on nursery devices and are retained on the device itself or uploaded to secure storage. Nursery devices used for photos and videos remain on the premises at all times (except the nursery phone which is occasionally used during outings and stays with staff for the duration of the outing and is returned afterwards). Photos are only ever shared for promotional purposes, such as on social media or the nursery website, if the necessary permissions have been obtained from parents or guardians.

Special events attended by parents
At special events, such as graduation ceremonies or class performances:

- Parents may take photos or videos for their own personal use to capture their child.
- Other children may appear incidentally in the background, but parents must not share or post any
- images that include children other than their own without explicit parental consent.

Internal Meetings
No internal meetings may be recorded without the consent of all participants. Unauthorised recordings may be treated as gross misconduct.

This policy was adopted on	Signed on behalf of the nursery	Date for review
27/10/2026	*L.George*	*10/2027*

POLISI FFÔN SYMUDOL, FFOTOGRAFFIAETH A DYFEISIADAU

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dyfais electronig sy'n gallu tynnu lluniau, recordio fideos, anfon/derbyn galwadau neu negeseuon. Mae hyn yn cynnwys camerâu, ffonau symudol, tabledi, oriorau clyfar, Fitbits, ac unrhyw ddyfeisiau recordio tebyg.

Defnydd Staff o Ddyfeisiau

Cedwir blwch ffôn symudol dynodedig yn swyddfa'r feithrinfa. Ar ddechrau pob diwrnod gwaith, rhaid i bob aelod o staff ddiffodd ei ffôn symudol personol neu ei roi ar y modd tawel, a'i roi yn y blwch ffôn dynodedig, lle rhaid ei gadw'n ddiogel drwy gydol y diwrnod gwaith. Caniateir i staff gasglu eu ffonau yn ystod eu hawr ginio ddynodedig, ond rhaid eu rhoi yn ôl yn y blwch cyn dychwelyd i'w dyletswyddau. Gellir casglu'r ffonau ar ddiwedd y diwrnod gwaith, pan fydd staff yn gorffen eu sifft. Gall y rheolwyr gytuno i eithriadau pan fo rheswm dilys dros i aelod o staff gael mynediad at ei ffôn neu ei gadw gydag ef yn ystod oriau gwaith. Rhaid cytuno ar unrhyw drefniadau o'r fath gyda'r rheolwyr ymlaen llaw.

Mae'r weithdrefn hon ar waith er mwyn lleihau gwrthdyniadau, diogelu preifatrwydd a chyfrinachedd y plant, a sicrhau bod staff yn parhau i ganolbwyntio ar ofal, goruchwyliaeth a diogelwch y plant. Dim ond dyfeisiau a ddarperir gan y feithrinfa y caiff staff eu defnyddio i dynnu lluniau neu recordio fideos o'r plant. Ni ddylai dyfeisiau'r feithrinfa gynnwys apiau cyfryngau cymdeithasol na negeseuon, a dim ond y rheolwyr a gaiff osod apiau arnynt. Rhaid i ddyfeisiau'r feithrinfa aros ar safle'r feithrinfa pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Yr unig eithriad yw gliniaduron y feithrinfa, y caiff uwch-reolwyr fynd â nhw adref at ddibenion gwaith yn unig.

Ymwelwyr a Rhieni

- Mae croeso i ymwelwyr ond rhaid iddynt gadw ffonau symudol, oriorau clyfar, Fitbits, a dyfeisiau eraill mewn pocedi neu yn y swyddfa a rhaid iddynt beidio â'u defnyddio tra yn y lleoliad
- Gofynnir i rieni beidio â chaniatáu i blant ddod â dyfeisiau sy'n gallu tynnu lluniau neu recordio, gan gynnwys oriorau clyfar a Fitbits.
- Ni all ymwelwyr a rhieni dynnu lluniau na fideos ar safle'r feithrinfa heb ganiatâd ymlaen llaw gan y rheolwyr.

Caniatâd ar gyfer lluniau a fideos

Dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan rieni/gwarcheidwaid y caniateir tynnu lluniau a fideos o blant. Rhoddir yr opsiwn i rieni drwy ein ap meithrinfa i:

- Ganiatáu rhannu lluniau gyda nhw'n unigol ar yr ap diogel mewnol.
- Ganiatáu rhannu lluniau gyda rhieni eraill ar yr ap diogel mewnol.
- Ganiatáu i'r feithrinfa dynnu lluniau i'w defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol, y wefan, neu
- ddeunyddiau hyrwyddo eraill.
- Ganiatáu i drydydd partïon ddefnyddio lluniau.

Gall rhieni/gofalwyr dynnu eu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg drwy ap y feithrinfa neu yn ysgrifenedig. Bydd tynnu caniatâd yn ôl yn berthnasol i ddefnydd delweddau yn y dyfodol. Bydd y feithrinfa yn cymryd camau rhesymol i gael gwared ar ddelweddau a gyhoeddwyd yn flaenorol lle bo'n ymarferol; fodd bynnag, efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl, er enghraifft lle mae delweddau eisoes wedi'u defnyddio mewn deunyddiau printiedig, cyhoeddiadau marchnata, neu gan drydydd partïon awdurdodedig.

Personél newyddion a chyfryngau

Gall personél newyddion neu gyfryngau dynnu lluniau o amgylchedd y feithrinfa neu blant heb i'w hwynebau gael eu gweld, fel na ellir adnabod plant. Ni ddylent gadw unrhyw ddelweddau o blant and ydym wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw ar eu cyfer i'w defnyddio gan drydydd parti.

Dyfeisiau meithrinfa

Mae lluniau a fideos a dynnwyd ar ddyfeisiau meithrinfa yn cael eu cadw ar y ddyfais ei hun neu eu huwchlwytho i storfa ddiogel. Mae dyfeisiau meithrinfa a ddefnyddir ar gyfer lluniau a fideos yn aros ar y safle bob amser (ac eithrio ffôn y feithrinfa a ddefnyddir o bryd i'w gilydd yn ystod teithiau allan ac sy'n aros gyda'r staff am hyd y daith ac yn cael ei ddychwelyd wedyn). Dim ond at ddibenion hyrwyddo y caiff lluniau eu rhannu, fel ar gyfryngau cymdeithasol neu wefan y feithrinfa, os yw'r caniatâd angenrheidiol wedi'i gael gan rieni neu warcheidwaid.

Digwyddiadau arbennig y mae rhieni'n eu mynychu

Mewn digwyddiadau arbennig, fel seremonïau graddio neu berfformiadau dosbarth:

- Gall rhieni dynnu lluniau neu fideos at eu defnydd personol eu hunain i dynnu lluniau o'u plentyn.
- Gall plant eraill ymddangos yn y cefndir ar hap, ond ni ddylai rhieni rannu na phostio unrhyw ddelweddau sy'n cynnwys plant heblaw eu plant eu hunain heb ganiatâd penodol rhieni.

Cyfarfodydd Mewnol

Ni chaniateir recordio unrhyw gyfarfodydd mewnol heb ganiatâd yr holl gyfranogwyr. Gellir trin recordiadau heb awdurdod fel camymddwyn difrifol.

Mabwysiadwyd y polisi hwn ar	Llofnodwyd ar ran y feithrinfa	Dyddiad adolygiad nesaf
27/10/2026	*L.George*	*10/2027*